**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** **ATODIAD A**

**Gwasanaethau Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barn yr Archwiliad 2018/19**

| | Maes Archwiliadwy | Y Negeseuon Allweddol a'r Argymhellion ar gyfer Gwella | Critigol | Pwysig | Canolig | Mân | Cyfan-swm | Barn yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Credydwyr (System P2P Proactis)** | 1) Dylai Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog Contractau yr Awdurdod gael eu diweddaru a'u diwygio i ddarparu cyngor ac arweiniad priodol i'r swyddogion.<br>2) Dylai'r Gwasanaeth greu gweithdrefnau ysgrifenedig manwl ar gyfer y staff, i ddarparu arweiniad cam wrth gam ar archebu a derbyn nwyddau, gwaith a gwasanaethau.<br>3) Dylai'r Gwasanaeth sefydlu rhestr annibynnol o swyddogion sydd â'r awdurdod i fewnbynnu a chymeradwyo archebion a hynny dim ond ar ôl cael cyfarwyddyd ysgrifenedig gan y Gwasanaeth Tân.<br>4) Dylid gwneud trefniadau fod pawb sydd ag awdurdod i lofnodi, ac sy'n gwneud penderfyniadau am gontractau neu brynu, yn datgan unrhyw gysylltiadau neu fuddiannau personol sydd ganddynt â chyflenwyr a/neu gontractwyr.<br>5) Dylid cynnal ymarferiad 'gwaith tŷ' i sicrhau bod enwau gweithwyr a chyfeirnodau lluosog yn gywir ar y System AS400; dylai enwau a chyfeirnodau gwerthwyr gael eu gwneud yn 'anweithredol' os ydynt wedi'u dyblygu.<br>6) Dylai pob swyddog sy'n gyfrifol am gaffael nwyddau a gwasanaethau gael ei atgoffa y dylid codi archebion yn derbyn yr anfoneb, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.<br>7) Dylai'r Gwasanaeth lunio adroddiad bob mis yn dangos yr archebion a godwyd ac sydd heb gael anfoneb gysylltiedig; yna, dylid gwneud rhagor o ymholiadau i gadarnhau a yw'r nwyddau wedi cael eu derbyn ynteu a oes angen canslo'r archeb.<br>8) Dylid llunio adroddiad dilysu rhif TAW ar ôl paratoi pob taliad i GTAGC, yn rhestru rhifau TAW pob gwerthwr newydd. Bydd hyn yn golygu bod bodd cynnal gwiriad ar gronfa ddata ar-lein y Comisiwn Ewropeaidd i wirio ei fod yn rhif TAW dilys.<br>9) Dylai'r Uwch Reolwyr gael adroddiad bob 6 mis yn nodi perfformiad y Gwasanaeth mewn perthynas â'r dangosydd perfformiad sy'n ymwneud â thalu cyn pen 30 diwrnod. | **0** | **0** | **1** | **8** | **9** | **UCHEL** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **Incwm a Dyledwyr GTAGC** | 1) Canfuwyd bod anfonebau'n weddill ar gyfer yr elfen TAW o secondiad; os na ellir dod i gytundeb, dylai'r Gwasanaeth ystyried a ddylai secondiad y swyddog ddod i ben.<br>2) Dylai unrhyw eithriadau i'r polisi ar waredu peiriannau tân, e.e. gwerthu i 'bartner dibynadwy', gael eu dogfennu mewn dadansoddiad risg a'u cymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol.<br>3) Dylid gofyn i Ystafell Reoli'r Gwasanaeth roi'r gorau i ddarparu'r cyfleuster i drosglwyddo galwadau brys i Ystafell Reoli'r Gwasnaeth Tân ac Achub i gwsmeriaid sydd â dyledion yn weddill.<br>4) Dylai'r Swyddog Cyllid wirio'r System Galw Gwasanaeth Arbennig bob mis i sicrhau bod pob gwasanaeth y mae'n bosibl codi tâl amdano yn cael ei anfonebu'n brydlon.<br>5) Dylai'r adran gyfleusterau sicrhau bod y costau ar yr 13 Safle ar y Cyd yn cael eu cyfrifo cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn er mwyn gallu codi anfonebau dyledwyr yn brydlon.<br>6) Dylai'r is-adran gyllid gadw atodlen o'r incwm sy'n ddyledus ar gyfer yr 13 Safle ar y Cyd.<br>7) Dylid cytuno ar atodlen flynyddol o gytundebau rhent safleoedd erialau; bydd hyn yn gymorth i gysoni'r incwm sy'n ddyledus o rent safleoedd erialau a'r incwm a gafwyd mewn gwirionedd. | **0** | **0** | **3** | **4** | **7** | **UCHEL** |
| 3 | **Cardiau Prynu GTAGC** | 1) Mae angen adolygu Gweithdrefnau Barclaycard, a'u diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi arweiniad mewn sawl maes allweddol.<br>2) Dylai terfynau credyd Barclaycard, fel y maent wedi'u cofnodi ar y gofrestr, gael eu gwirio yn erbyn System Barclaycard er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn gywir.<br>3) Dylai pawb sy'n dal cerdyn lofnodi *Ffurflen Cytundeb Barclaycard* pan fyddant yn derbyn Barclaycard.<br>4) Dylai'r gofrestr *Manylion Deiliaid Cardiau a Ganslwyd* gofnodi pob achos o ganslo cerdyn, gan gynnwys cardiau a gafodd eu colli/eu dwyn a chardiau a gafodd eu canslo oherwydd gweithgareddau twyllodrus.<br>5) Dylai ffurflen *Dychwelwyd Barclaycard* gael ei llenwi gan y Swyddog Cyllid pan fydd yn derbyn achos o gerdyn wedi'i ganslo.<br>6) Rhaid i ddeiliaid cardiau sicrhau bod cofnodion gwariant a derbynebau yn cael eu cyflwyno'n brydlon i'r Swyddog Cyllid er mwyn gallu cynnal gwiriadau cadarn yn amserol.<br>7) Rhaid atgoffa deiliaid cardiau i sicrhau bod derbynebau'n cael eu cyflwyno i gefnogi pob gwariant. Rhaid darparu derbynebau TAW dilys ar gyfer pryniadau sydd â TAW er mwyn | **0** | **0** | **6** | **6** | **12** | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gallu ei hawlio'n ôl. Hefyd, rhaid atgoffa deiliaid cardiau na ddylent gael unrhyw fudd personol, e.e. pwyntiau deiliaid cardiau manwerthu, am brynu pethau ar ran y Gwasanaeth.<br>8) Gan fod rhaid dweud wrth Barclaycard cyn pen 28 diwrnod os oes unrhyw weithgarwch amheus neu dwyllodrus ar gardiau, mae'n bwysig i ddeiliaid cardiau gyflwyno eu cofnodion gwariant a'u derbynebau yn brydlon i'r Swyddog Cyllid er mwyn gallu cynnal gwiriadau cadarn yn amserol.<br>9) Ni ddylid defnyddio cardiau Barclaycard i dalu am gynhaliaeth i swyddog; dylid cael derbynneb, llenwi hawliad am gynhaliaeth, cymeradwyo'r hawliad ar unwaith, a'i gyflwyno drwy'r Gyflogres. Mewn amgylchiadau brys, pan ddefnyddir cerdyn i dalu am gynhaliaeth, dylid cofnodi'r gwariant gan nodi lefel yr wybodaeth sydd ei hangen mewn Hawliad Cynhaliaeth, sef lleoliad ac amser y tu allan i'r swyddfa er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Polisi Ad-dalu Treuliau.<br>10) Dylid atgoffa deiliaid cardiau bod rhaid iddynt gydymffurfio â'r Polisi Ad-dalu Treuliau; rhaid i wariant uwch na'r terfynau gael ei ad-dalu'n brydlon pan fo cofnod o'r gwariant yn cael ei gyflwyno, ac ni chaniateir gwario ar ddiodydd alcoholaidd.<br>11) Rhaid i ddeiliaid cardiau sicrhau bod y balans arian parod cywir yn cael ei roi yn y cofnod o wariant. Rhaid i bawb sy'n dal cerdyn lenwi datganiad diwedd blwyddyn i nodi'r arian mewn llaw er mwyn ei gysoni â'r cofnodion, a dylai deiliaid cardiau sydd ag arian parod yn ddyledus iddyn nhw gan y Gwasanaeth dynnu'r arian allan cyn gynted â phosibl a pheidio â chario balansau debyd drosodd.<br>12) Dylai'r Gwasanaeth ystyried rhoi'r gorau i dynnu arian allan, neu gyfyngu'n llym ar nifer y staff sydd â cherdyn. | | | | | | |
| 4 | **Ymchwiliad Arbennig – Gweithgarwch Defnyddwyr Anawdurdod-edig ar y Rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth Leol** | Mae'r cynnwys wedi'i gyfyngu | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** |
| | | *** Mae archwiliadau dilynol wedi cael eu trefnu yn 2019/20 er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu'n foddhaol.**<br>**Gweithredu'r argymhellion.** | | | | | | **2**<br>**1** |

| |
|---|
| 0 |
| 0 |

ATODIAD B

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

### Atodlen o Archwiliadau Dilynol 2018/19

| | Disgrifiad | Archwil-ydd | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad yr Archwiliad Dilynol | Nifer yr Argymhell-ion | Argymhell-ion yn Weddill | Barn Ddiwygiedig yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban GTAGC** | KVW | Ebrill 2018 | Mawrth 2019 | 12 | 4<br>(3 WIP) | **UCHEL** |

**ATODIAD C**

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
## Crynodeb o Weithgareddau Archwilio Mewnol 2018/19

| | **Adran / Gwasanaeth** | **Diwrnodau a Gynllun-iwyd 2018/19** | **Diwrnodau mewn gwirionedd 2018/19** |
|---|---|---|---|
| **1** | Y Prif Systemau Ariannol – **Credydwyr** | **10** | **13** |
| **2** | Y Prif Systemau Ariannol – **Incwm a Dyledwyr** | **9** | **13** |
| **3** | Y Prif Systemau Ariannol – **Cardiau Prynu** | **0** | **12** |
| **4** | Ymchwiliad Arbennig – **Torri Rheolau Data** | **0** | **8** |
| **5** | Gorsafoedd ar gael yn ôl y galw (RDS) (Ynys Môn a Gwynedd) | **10** | **0** |
| **6** | Diogeledd Seiber (Rhan 2) | **12** | **0** |
| **7** | **Archwiliadau dilynol**:<br>• Polisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban | **7** | **3** |
| **8** | Gwaith Cynllunio ac Adrodd ATAGC (gan gynnwys Adroddiad Blynyddol a Chynllun Strategol) | **5** | **6** |
| **9** | Cronfa wrth gefn | **2** | **0** |
| | **CYFANSWM Y DIWRNODAU** | **55** | **55** |
| | **Diwrnodau a ddyrannwyd 2018/19** | | **55** |
| | **Diwrnodau mewn gwirionedd 2018/19** | | **55** |
| | **Cyfanswm y Diwrnodau a gariwyd drosodd i 2019/20** | | **0** |